

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

99. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jabez Oakes.

100. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

101. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 yn gywir.

102. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

103. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn.

02/2020/0707 - Priory House, 9 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Gwaith ar goeden geirios yn Ardal Gadwraeth Rhuthun – Caniatawyd

02/2020/0336 - Maes Elwy, 10A Stryd y Farchnad, Rhuthun – Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn, gosod ffenestr to yn y gweddllun blaen a gwaith cysylltiedig – Gwrthodwyd

104. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD: *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau isod.*

02/2020/0769 – 13 Llwyn Menlli, Rhuthun

Adeiladu estyniad un llawr i flaen ac ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig

02/2020/0822 - Coed y Bryn, Bryn Goodman, Rhuthun

Torri un goeden ffawydden gopr sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed 126/7/1993

PENDERFYNWYD: *cyflwyno'r sylwadau isod yng nghyswllt y cais isod:*

02/2020/0811 – Tir yn (rhan o ardd) 73A Erw Goch, Rhuthun

Adeiladu annedd ar wahân, creu mynedfa newydd i gerbydau a gwaith cysylltiedig

Roedd yr aelodau'n parhau i deimlo fod hyn yn cynrychioli datblygu amhriodol ac y byddai'n gorddatblygu'r safle. Byddai'n arwain at ddiffyg gwagle amwynder ar gyfer yr annedd newydd.

PENDERFYNWYD: *yn dilyn trafodaeth fanwl, gyfeirio'r cais hwn i'w ystyried gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod nesaf, yn ddarostyngedig i gael estyniad i'r dyddiad cyflwyno sylwadau.*

02/2020/0724 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun

Adeiladu 63 annedd fforddiadwy ynghyd â ffordd fynedfa, gwagle agored a gwaith cysylltiedig (cynllun diwygiedig)

105. AMCANGYFRIFON ARIANNOL AR GYFER 2020-21

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cyllideb arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21. Amlinellodd y Clerc y symiau wedi'u dyrannu dan y penawdau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef £800.00 ar gyfer llifoleuadau a £500.00 ar gyfer gwariant amrywiol.

Cynigiodd y Maer gyflwyno pennawd cyllideb newydd, Dyfodol Rhuthun, gan ddyrannu cyllideb o £500.00 dan y pennawd hwn. Eiliwyd hyn a'i gytuno'n unfrydol.

PENDERFYNWYD: *rhoi'r un symiau â'r flwyddyn flaenorol yng nghyllideb y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, a chynnwys pennawd newydd cynllunio Dyfodol Rhuthun gyda £500.00 wedi'i ddyrannu i hynny, gan ddod â chyfanswm y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 i £1,800.00.*

106. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 7 Rhagfyr 2020 am 7.45pm.*